tafod elái

GORFFENNAF 2015

Rhif 299

Pris 80c

## Trafnidiaeth Ysgol



Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cynnal cyfnod o ymgynghori ar drefniadau cludiant cartref i'r ysgol oherwydd toriadau yng nghyllideb y cyngor. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darparu cludiant i'r ysgol ar gyfer tua 11,690 o ddisgyblion prif ffrwd bob dydd. Mae tua 7,000 o blant yn cael eu cludo ar sail ddewisol h.y. dydy hi ddim yn ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor ddarparu cludiant ar gyfer y disgyblion yma, ond o dan ei bolisi presennol, mae wedi dewis gwneud hynny.

Rhaid i'r Cyngor ddarparu cludiant ysgol am ddim i bob disgybl oed ysgol gorfodol sy'n mynd i ysgol gynradd ac sy'n byw 2 filltir neu'n bellach o'i ysgol addas agosaf; mae'r Cyngor yn darparu cludiant i ddisgyblion sy'n byw 1.5 milltir neu'n bellach o'u hysgolion ar hyn o bryd. Felly, mae'r gwasanaeth rhwng 1.5 a 2 filltir, yn ddewisol. Ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd (hyd at oedran 16 – diwedd blwyddyn 11) rhaid i'r Cyngor ddarparu cludiant am ddim os yw'r disgyblion yn byw yn bellach na 3 milltir o'u hysgolion uwchradd addas agosaf. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darparu cludiant i ddisgyblion sy'n byw yn bellach na 2 filltir i ffwrdd. Felly, mae'r gwasanaeth rhwng 2 a 3 milltir, yn ddewisol. Rhaid i'r Cyngor hyrwyddo mynediad i Addysg Cyfrwng Cymraeg ac o ganlyniad i hynny, caiff disgyblion / myfyrwyr ddewis eu hysgolion addas agosaf, yn unol â'u dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg).

Cynnig y Cyngor yw cynnal y lefel bresennol o gludiant ond i gyflwyno tâl ar gyfer y plant hynny sy'n elwa o elfennau dewisol y ddarpariaeth. Byddai'r tâl yn £1.75 y diwrnod. Byddai'r disgyblion hynny sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim, yn talu llai (£1.00 y diwrnod). Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y Cyngor ac mewn cyfarfodydd ymgynghori yn yr ysgolion.

Mae'r Fenter Iaith hefyd yn casglu tystiolaeth ar y ddarpariaeth i ysgolion Cymraeg ac mae croeso i chi gysylltu â'r




## Rhyfeddodau yr ardal



Alun Wyn Bevan fu'n tywys aelodau Clwb y Dwrlyn i Blaencwm i glywed am y cynllun i ail-agor y twnel rheillfordd ac yna i Sgwd Henrhyd — yr uchaf yn Ne Cymru.



## Paned yn Prince's



Yvonne Evans a Margaret Francis



Delyth Blainey



Bethan Walkling a Huw Blainey



Gareth a Gina Miles

Yvonne Evans fu draw yng nghaffi Prince's, Pontypridd i glywed rhai o drigolion yr ardal yn brolio'r caffi ac i fwynhau paned o de ar gyfer rhaglen Pnawn Da, S4C.

# Ysgol Creigiau

**ATHRAWES NEWYDD**

Llongyfarchiadau i Miss Lowri Rees ar ei phenodiad fel athrawes barhaol yn yr ysgol. Mae Lowri wedi bod yn ein plith ers blwyddyn yn brysur iawn yn rhannu ei dysgu rhwng dau ddosbarth sef Dosbarthiadau 1 a 5. Braf iawn cael dy gwmni gyda ni'n barhaol o fis Medi 'mlaen nawr, Lowri.

**YMDDEOLIAD**

Mae'r ysgol am ddymuno'n dda i Mr Peter Evans a fydd yn ymddeol ar ddiwedd y tymor wedi 36 o flynyddoedd yn yr ysgol. Diolch iddo am arwain yr ysgol mor llwyddiannus am gyhyd o amser. Ymlaciwch nawr a mwynhewch y golff!!

**CHWARAEON**

Llongyfarchiadau i dîm trawsgwlad yr ysgol ar eu llwyddiant yn rownd derfynol Cystadleuaeth Cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth ym mis Mai. Fe ddaeth y tîm cyfan yn fuddugol a chyflwynwyd tarian "Clwb Athletau Aberystwyth" iddynt. Llongyfarchiadau i Sophie Knoyle am ddod yn gyntaf yn y ras i ferched Bl.3, ac i Freya Roberts am ddod yn drydydd yn y ras i ferched Bl.6

Ar yr un penwythnos, fe lwyddodd y tîm rygbi hefyd i gyrraedd y rownd go-gynderfynol yng Nghystadleuaeth yr Urdd.

Fe brofodd y tîm pêl-rwyd lwyddiant hefyd yn ddiweddar drwy lwyddo i gyrraedd rownd derfynol Twrnament Pêl-rwyd Cenedlaethol Cymru.

**EISTEDDFOD YR URDD**

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili:

Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau am ddod yn ail yn eu cystadleuaeth

Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau i ddysgwyr am ddod yn fuddugol yn eu cystadleuaeth

Kira Devine am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth i lefarwyr ail iaith blynyddoedd 5 a 6

Casi a Nel Thomas am ennill y drydedd wobr am eu gwaith Celf a Chrefft



Tîm rygbi'r ysgol a lwyddodd i gyrraedd rownd go gynderfynol Cystadleuaeth yr Urdd.




Tîm pêl-rwyd Ysgol Creigiau gyda'i hyfforddwyr, Mrs Stone a Mrs Hussey. Fe lwyddodd y tîm i gyrraedd rownd derfynol Twrnament Pêl-rwyd Cenedlaethol Cymru.



Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau yr ysgol a enillodd yr ail wobr yn Eisteddfod yr Urdd, Caerffili



Menter Iaith
Rhondda Cynon Taf

**01443 407570**
**www.menteriaith.cymru**



**Digwyddiadau**
Ry'n ni'n brysur yn ystod y cyfnod hwn bob blwyddyn yn trefnu stondinau a sicrhau presenoldeb cryf i blant a theuluoedd wrth fynychu amryw ddigwyddiadau. Mae gwaith celf gwych wedi ei creu gan aelodau o gymuned Pontypridd yng Nghlwb y Bont yn ystod wythnos gwirfoddoli. Bydd y gwaith hwn yn cael ei arddangos ym Mharti Ponty. Bu Festivol (Gŵyl gwirfoddolwyr) yn llwyddiant ar y 6ed o Fehefin yn ogystal â'r Ŵyl Feithrin a Phicnic y Tedis. Ond yr hyn sy'n ein cadw fwyaf prysur ar hyn o bryd yw'r trefniadau ar gyfer…


**PARTI PONTY 11/7/15**
Dewch i Barc Ynysangharad Pontypridd ddydd Sadwrn Gorffennaf 11eg
10 – 5pm am ddiwrnod arbennig. Rhywbeth i bawb o bob oed.
Adloniant i blant, teuluoedd, pobl ifanc ac oedolion.
Stondinau, crefftau, bwyd, chwaraeon yr Urdd, Cerddoriaeth byw a llawer mwy!
Croeso mawr i bawb. Mynediad am ddim.

Mae Twrw Taf wedi trefnu noson i dwymo lan ar gyfer Parti Ponty nos Wener y 10ed yng Nghlwb y Bont. Bydd hi'n noson wefreiddiol gyda Meic Stevens a Gai Toms a'r Band.

**Fforymau Ieuenctid**
Am fis prysur!
Yn yr wythnosau diwethaf mae fforymau Garth Olwg a Choleg y Cymoedd wedi bod yn brysur yn trefnu trip i ddisgyblion y chweched a'r coleg. Dydd Sadwrn 23ain o Fai roedd yr haul yn tywynnu ac aeth 23 o fyfyrwyr i Narbeth i gael hwyl a sbri yn Oakwood. Roedd ymddygiad a chwmni'r disgyblion yn wych, ac mi oedd yn bleser gwario'r diwrnod gyda nhw. Diolch yn fawr i fechgyn 'Y Criw' a merched 'Y Fforwm Ffab' am drefnu diwrnod mor llwyddiannus.

Trefnodd y Sgwod (Ysgol y Cymer) drip llwyddiannus iawn nos Wener y 5ed o Fehefin i Team Sport yng Nghaerdydd. Llwyddodd y merched i gael 22 o fyfyrwyr i fynychu'r daith er eu bod yng nghanol harholiadau; hoe fach haeddianol!

Dydd Gwener roedd yr haul yn tywynnu a theithiodd 22 o fyfyrwyr rhwng 13 a 17 mlwydd oed i ganol y ddinas ar y trên – yn ffodus i ni cyrhaeddon ni Caerdydd cyn i dorfeydd One Direction a'r Manics gyrraedd! Roedd y staff yn groesawgar iawn a chawson ni aelod o staff Cymraeg. Cafodd pawb amser gwych yn rasio o amgylch y traciau, rhai yn fwy cystadleuol nag eraill! Ar ôl awr a hanner prysur o rasio o amgylch, roedd pawb yn ffansio rhywbeth i'w fwyta. Cerddon ni nol i Brewery Quarter am 'cheeky' Nandos.




**Be' sy' ar y gweill...**
Mae'r Fenter wedi trefnu trip i fforymau ieuenctid y sir. Mae'r trip yn digwydd ddydd Gwener 24ain o Orffennaf 2015 i Mountain Ranch View yng Nghaerffili. Cost y trip yw £20 y person. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau am y diwrnod (Raffau Uchel, Segways a Archery) a chludiant i'r digwyddiad. Os oes diddordeb gyda chi plîs cysylltwch â Rian.
01443 407570 / 07500878288
rian@menteriaith.org
https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf

**Gwasanaethau Plant**
Gyda pharatoadau ar gyfer blwyddyn newydd yn y Clybiau Carco yn mynd rhagddynt, mae'n bleser dweud bod eu niferoedd yn dal i godi a'r plant yn cael amser gwych.

Mae'n sylw hefyd yn awr ar ein cynlluniau Haf. Bydd pob math o weithgareddau a thripiau ar gael y flwyddyn yma, felly dewch yn llu! Cyfle i ddianc wrth mam a dad, blant!

**Gair gan Einir Siôn, Prif Weithredwraig**
Mewn cyfnod prysur o drefnu a pharatoi ar gyfer yr haf, mae nifer o ddatblygiadau pellach yn mynd â'n sylw wrth i ni ymateb i ymgynghoriadau all gael effaith ar fynediad plant a phobl ifanc i addysg Gymraeg. Rydw i'n eich annog i ymateb i'r ymgynghoriad teithio o'r cartref i'r ysgol yn Rhondda Cynon Taf. Mae manylion ar wefan y cyngor ac mae croeso i chi anfon sylwadau ac ymatebion i mi yn y Fenter neu'n uniongyrchol i'r Cyngor. Cymerwch ychydig o amser yn ystyried y pwnc am bod posibilrwydd y gall y toriadau diweddaraf yma gael effaith andwyol ar niferoedd plant fydd yn mynychu addysg Gymraeg.

Ar nodyn tipyn mwy cadarnhaol, hoffwn roi sylw i ferch arbennig sydd wedi bod ar brofiad gwaith hir dymor gyda ni ers mis Ionawr. Mae Demi yn gyn ddisgybl o Ysgol Gyfun y Cymer ac mae'n bleser ei chael yn y swyddfa a gweld ei hyder a'i balchder yn y Gymraeg yn tyfu. Dyma air gan Demi am ei phrofiadau gyda ni hyd yma.

**Profiad Demi**
Yma mewn swyddfa Menter Iaith RCT, rydw wedi bod yma ers mis Ionawr eleni ar brofiad gwaith. Rydw i wedi helpu mewn sawl digwyddiad megis Cynllun Chwarae yn Bodringallt a Garth Olwg, ymweld â grwp Mamau a Phlentyn gyda Catrin, a mynd ar daith fforymau ieuenctid i Barc Oakwood gyda Rian.

Rydw i'n mwynhau fod ar brofiad gwaith yn y swyddfa oherwydd mae'n rhoi siawns i fi siarad a gwella fy Nghymraeg yn fwy. Rydw i hefyd yn helpu trefnu Parti Ponty 2015. Uchafbwynt arall oedd gwisgo lan fel cymeriad Magi Ann ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Nghaerffili.

Demi Williams



John Rees James yn dathlu 100 oed
(Tudalen5)





Laura Unett a James Perks, Tonteg
briododd ar Fai 3ydd (Tudalen 8)



Gwen Griffiths yn tywys aelodau Merched y Wawr
yng Nghrochendy Nantgarw (Tudalen 8)



Emrys mab Lowri a Marc Real,
Pontypridd. (Tudalen 6)



Anni merch Elin a George Creigiau
(Tudalen 8)

# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol:*
Betsi Griffiths



**Noson Gwobrwyo Clwb Rygbi**

Noson hyfryd gyda Rhys Webb, mewnwr rhyngwladol Cymru, yn un o'r gwahoddedigion. Uchafbwynt y noson oedd cyflwyno capiau'r clwb i Gareth Walters, Nathan Walters, Michael Hughes a Ricki Priday. Braint rhagorol gyda'r bechgyn wedi chwarae i Gilfach Goch ers 7 mlynedd gyda'r timau iau ac ieuenctid ac hefyd wedi chwarae dros 300 gêm i'r tîm cyntaf.

Llongyfarchiadau mawr bechgyn a diolch yn fawr i Dawn a Brian Walters am y champagne.

**Gild y Merched**

Mae'n dda iawn cael croesawu Mrs Mary Thomson nol i'r Gild. Bu Mary yn sâl yn ystod y flwyddyn diwethaf wedi iddi syrthio tra ar ymweliad a'i theulu yn Awstralia. Croeso nôl Mary.

Yr un noson cawsom Noson Gerddorol gan Mrs Madge Simcox ffrind i Mary. Roedd Madge wedi dewis darnau o gerddoriaeth ac roedd yn sôn amdanynt cyn eu chwarae i ni. Noson arall daeth Côr Sefydliad y Merched o Dreorci dan arweiniad Mrs Mary Price i'n diddori.

Noson diddorol oedd y noson gan Mr Walter Jones, cyn-swyddog Addysg Amgueddfa Werin Sain Ffagan pan welsom hen offer cegin fferm. Buom hefyd ar ddwy daith, un i Aberhonddu a'r llall i Ynys y Barri i gofio am ein plentyndod. Diolch yn fawr iawn i Mary ac i Mrs Betty Jones am eu trefnu.

# John Rees James yn gant oed

Ar Fehefin 29ain 2015 roedd Mr John Rees James o Heol-y-ffynnon, Efail Isaf yn dathlu ei ben-blwydd yn gant oed. Mae John yn nai i'r diweddar Sam Jones, BBC Bangor.

Ganwyd a magwyd John yng Nghlydach, Cwmtawe, yn un o naw o blant ac addysgwyd yn Ysgol Gynradd Clydach. Pan yn un deg pedwar oed aeth i weithio yng ngwaith glo Graigola Merthyr yng Nghraig Cefn-parc. A hyd nes oedd yn un ar hugain oed ei waith oedd yn y sgrîns yn didoli'r slag oddi wrth y glo. Pan yn un ar hugain oed aeth dan ddaear i weithio. Diddorol yw nodi tra'n gweithio ar y wyneb ei gyflog oedd pymtheg swllt (15/-) (75c) yr wythnos ond dan ddaear ar y pryd ei gyflog oedd punt tri swllt ar ddeg a phum ceiniog (£1 13s 5c) (£1.67c). Yr adeg yma roedd John yn mynychu'r oedfaon yng Nghalfaria, Clydach a'r Band of Hope oedd yn cael ei gynnal yn y capel ar nos Lun.

Yn ystod dirwasgiad 1936 penderfynodd nifer o ffrindiau John chwilio am swyddi ym mhell oddi cartref. Un ohonyn nhw oedd Bryn Francis a aeth i weithio yn Birmingham. Dilynodd John ei gamau wrth fynd i weithio yng Ngwesty'r George yn Kettering, Northampton. Gyda'r Ail Ryfel byd ar y gorwel anogwyd John i ddychwelyd i Glydach ac unwaith eto trodd i gyfeiriad glofa Graigola Merthyr am fywoliaeth. Yno y bu wedyn hyd nes iddo gael swydd fel "fireman" yng ngwaith glo Abergelli, Felindre.

Ar ôl cyfarfod ei ddarpar wraig Betty Chubbe o Efail Isaf tra roedd y ddau ohonynt ar eu gwyliau yn Aberystwyth yn 1944 fe briodon nhw yn Y Tabernacl, Efail Isaf ar Ragfyr 12fed 1946. Yn ôl yr arfer aeth John a Betty i fyw gyda mam Beti yn rhif 6 Heol y Ffynnon, Efail Isaf. Ac yna bu'r ddau yn byw wedyn yn ddedwydd eu byd yn gofalu am ei gilydd a magu eu dau blentyn Gareth a Huw. Cyfoethogwyd bywydau John a Betty pan ddaeth eu wyron a'u hwyres i mewn i'r byd ac i mewn i fywydau John a'i wraig.

Ar ôl priodi cafodd John swydd fel "fireman" yng ngwaith glo'r Cwm, Beddau ac yno y bu wedyn hyd nes iddo ymddeol yn chwe deg oed. Ond nid dyna oedd diwedd ar ei yrfa weithiol oherwydd iddo weithio am un ar ddeg mlynedd bellach fel peiriannydd yn Wiggins Teape yn Nhrefforest.

Bu Betty farw yn 1994 ac yn 2011 aeth John i fyw gyda'i fab, Huw a'i wraig Glynis a'i ŵyr Lewis yn y Paddocks, Pentre'r Eglwys Uchaf.

Cyfrinach fawr ei fywyd hir yw'r amrywiaeth o ddiddordebau oedd ganddo sef garddio, cerdded a chwarae golff. Gan gymaint ei ddiddordeb yn y byd golff mae John, yn un o sylfaenwyr Clwb Golff Creigiau.

Llongyfarchiadau mawr i John ar gyrraedd y garreg filltir nodedig hon yn ei fywyd.

Ann Dixey

# EFAIL ISAF

*Gohebydd Lleol:*
*Loreen Williams*

**Swydd Newydd**
Llongyfarchiadau i Daniel, mab Ioan a Liz Rees, Dyffryn Bach ar ei benodiad i swydd newydd gyda chwmni Edifera. Swydd yn ymwneud ag ynni adnewyddol yw hon ac mae ei swyddfa ym Mhontyclun. Pob dymuniad da iti, Daniel.

**Eisteddfod**
Llongyfarchiadau calonnog i amryw o blant a phobl ifanc y pentre ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili yn ddiweddar. Roedd yn Eisteddfod hapus a llwyddiannus.

**Adferiad Buan**
Dymunwn yn dda i Shelagh Griffiths, Heol y Ffynnon sydd heb fod yn rhy dda ei hiechyd yn ddiweddar. Dymunwn adferiad iechyd buan a llwyr i ti.

**Symud tŷ**
Dymunwn yn dda i Wyn a Mari Jones, Efa a Llew sydd yn symud o'u cartref yng Nghwrt Coed y Brenin. Fydd dim rhaid ffarwelio â'r teulu bach gan mai yn y Creigiau mae'r cartref newydd. Pob hwyl i chi.

**Dymuniadau gorau**
Dymunwn bob llwyddiant i aelodau Parti'r Efail a Chôr Godre'r Garth yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod ym mis Awst.

**Y TABERNACL**
**Rhagor o Neiniau a Theidiau!**
Llongyfarchiadau i Carol Hardy ar ddod yn Nain unwaith yn rhagor. Croeso i Jac Siôn Wyn Hardy sy'n fab i Llinos a Geraint Hardy.

Mae ein llongyfarchion yr un mor gynnes i Colin a Nia Williams, Creigiau, ar enedigaeth eu hwyres fach gyntaf. Mae Anni Beth yn ferch fach i Elin a George.

Llongyfarchiadau gwresog i Michael a Bethan Guilfoyle ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith yn rhagor. Ganwyd Edward Mathew yn fab i Mathew ac Allanah yng Nghaergrawnt. Brawd bach i Imogen.

**Adferiad Iechyd Buan**
Dymunwn yn dda i Tomos Morse sydd wedi bod yn yr ysbyty yn cael triniaeth yn ddiweddar. Brysia wella!

**Banc Bwyd Pontyclun**
Daeth hi'n amser i aelodau'r Tabernacl gynnig help yn archfarchnad Tesco yn Nhonysguboriau i ddidoli a derbyn bwyd ar gyfer banc bwyd Pontyclun. Bydd cyfle i helpu'r ymgyrch o ddydd Iau, 2il o Orffennaf tan Sadwrn 4ydd. Rhowch wybod i Ann Dwynwen Davies os hoffech helpu. Mae cwsmeriaid Tonysguboriau'n hynod hynod o hael a bydd Cwmni Tesco yn gwneud cyfraniad o 30% o'r cyfanswm a dderbynnir. Mae'r ymgyrch yn un gwerth chweil ac yn hwb sylweddol i'r Banc Bwyd ym Mhontyclun.

**Merched y Tabernacl**
Nifer fach iawn o aelodau Merched y Tabernacl a deithiodd i Dŷ Dyffryn ddydd Iau, Mehefin 11fed. Ar ôl cyfarfod yn y caffi am sgwrs a phaned, cawsom fynd i ymweld â'r tŷ. Mae'r tŷ erbyn hyn yn cael ei redeg gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Adeiladwyd Tŷ Dyffryn yn y 16eg ganrif. Y teulu olaf i fyw yn y tŷ oedd y Teulu Cory a Florence olaf un i fyw yno a bu hithau farw yn 1937. Prynwyd y stad gan Syr Cennydd Traharne a dyna pan ddechreuodd y tŷ ei oes fel canolfan cynadledda. Caewyd y lle fel canolfan hyfforddi a chynadledda yn 1998 ac roedd cynlluniau ar droed i droi'r tŷ yn westy moethus. Ni wireddwyd y freuddwyd hon ac achoswyd llawer o'r difrod a welir heddiw yn y tŷ gan y cynllun hwn. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn araf weithio i adfer yr adeilad gan weithio o stafell i stafell. Yn anffodus mae llawer iawn o waith ar ôl i'w wneud.

Cyfarfod nesaf yr aelodau fydd taith i Eglwys Llanilltud Fawr ar ddydd Mawrth, Gorffennaf 14eg.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Gorffennaf ac Awst**
Gorffennaf 5ed Oedfa Gymun yng nghwmni'r Ysgol Sul
Gorffennaf 12fed Sul y Cyfundeb
Gorffennaf 19eg Emlyn Davies
Gorffennaf 26ain Cyd-addoli yng Ngwaelod y Garth
Awst 2il Allan James yn Efail Isaf
Awst 9fed Bethlehem, Gwaelod y Garth
Awst 16eg Geraint Rees yn Efail Isaf
Awst 23ain Bethlehem, Gwaelod y Garth
Awst 30ain Y Parchedig Eirian Rees yn Efail Isaf

# Bethlehem Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon** (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**

Mis Gorffennaf 2015:
5ed Rhys ab Owen
12fed Sul y Cyfundeb ym Mhenarth
19eg Oedfa Gymun dan ofal y Parchedig R Alun Evans

26ain Oedfa ar y cyd a'r Tabernacl, Efail Isaf (ym Methlehem)

Mis Awst 2015:
2il Oedfa ar y cyd â'r Tabernacl, Efail Isaf [10:45 a.m.]
9fed Oedfa ar y cyd â'r Tabernacl, Efail Isaf (ym Methlehem)
16eg Oedfa ar y cyd â'r Tabernacl, Efail Isaf [10:45 a.m.]
23ain Oedfa ar y cyd â'r Tabernacl, Efail Isaf (ym Methlehem)
30ain Oedfa ar y cyd a'r Tabernacl, Efail Isaf [10:45 a.m.]

ooooOOOOoooo

Ychydig wythnosau yn âl daeth ffrind i aros yn ein tŷ ni, ffrind nad oeddwn wedi ei weld ers dyddiau ysgol, ffrind oedd wedi ymfudo i fyw i Awstralia ers deugain mlynedd bellach.

Yn naturiol roeddem ein dau yn gorfod cydnabod ein bod wedi heneiddio dros gyfnod mor faith, mwy o floneg o gwmpas y bol, gwallt yn newid ei liw, ond buan iawn yr aeth y sgwrs â ni yn ôl i Ddyffryn Nantlle ein plentyndod.

Plentyndod hapus yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, hwyl yn y pentref a'r dre', hwyl hefyd yng Nghapel Saron ar sgwar Penygroes.

Er nad ydi Capel Saron yno erbyn hyn gan iddo gael ei ddymchwel beth amser yn âl, mae 'na gapel newydd ar y safle, Capel y Groes.

Stori gyfarwydd ydi stori cau'r capeli ymhob ardal o Gymru, a bellach o gerdded o un pen i'm pentref genedigol i'r llall, nodaf fod Capel Bethel (MC) (a'r Festri gyferbyn) wedi eu troi yn dai annedd, Capel Soar (A) wedi ei ddymchwel, ond y festri mwyach yn cael ei ddefnyddio fel capel, Capel Horeb (W) wedi ei droi yn fflatiau, a Chapel y Groes (MC) ar ei newydd wedd yn lloches i gynulleidfa Bethel a Saron gynt. Mae Capel y Bedyddwyr serch hynny yn dal ei dir ac Eglwys Crist yn ogystal.

Ond yn ôl at y sgwrs rhwng dau gyfaill – adrodd storiau am hynt a helynt hwn a llall o'n cymdeithion yn yr ysgol, hel atgofion am droeon trwstan, crafu pen wrth geisio cofio pwy oedd pawb mewn ambell i lun ysgol o'r 1950au ac ymlaen ac ymlaen.

Mynnu dod nôl wnai'r sgwrs er hynny at yr Ysgol Sul a'r Band of Hope, deud adnod ar fore Sul, trip yr Ysgol Sul i'r Rhyl a phethau tebyg. Ceisio cofio pwy fyddai'n eistedd ym mha sedd yn y capel, beth fyddai ambell un yn wisgo, a gan bod ei dad o yn godwr canu, sut lais canu oedd gan hwn a hon (os oedd un o gwbl gan ambell un!).

Cofio ambell i gwis, a hefyd y nosweithiau rheini yn y Band of Hope pan fyddai rhywun wedi dychwelyd o'u gwyliau (dim ond doctoriaid oedd yn gallu fforddio mynd dramor bryd hynny!) a lluniau (slides) i'w dangos o ddinasoedd a gwledydd Ewrop.

Cofio'r athrawon Ysgol Sul, fy nhad yn eu mysg, a chofio paratoi (o fath) ar gyfer yr Arholiad Sirol. Cofio hefyd fod plant Salem, Llanllyfni yn gwneud lot gwell na ni ac yn ennill gwobrau!

Cofio'r Gweinidogion, ond cofio 'run bregeth!

Synnu o'r mwyaf mai dyma fu maes ein trafod wedi cymaint o fwlch yn ein perthynas, ond yn amlwg 'roedd o yn siwr o fod yn teimlo'n saff yn cydiad yn yr angor hwnnw, angor oedd wedi chwarae rhan mor bwysig yn nyddiau ei ieuenctid, angor hefyd oedd yn ei alluogi i gysylltu unwaith yn rhagor a'i deulu, yn fam ac yn dad a fabwysiadodd faban bychan ychydig wythnosau oed, ac a roddodd y gorau o bopeth iddo hyd eithaf eu gallu.

Siwrna saff i ti 'nol i Awstralia!

ooooOOOoooo

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org

'Rydym hefyd yn falch o'ch hysbysu ein bod wedi cofrestru Bethlehem.cymru ar gyfer ein gwefan. Bydd yn barod i'w defnyddio cyn hir!

Ymwelwch yn gyson â'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

# PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol:*
*Jayne Rees*

**Merched y Wawr**
Unwaith eto bydd y Gangen yn gorffen y flwyddyn gyda thaith gerdded ar nos Iau, Gorffennaf 2il. Pawb i gwrdd tu allan i dafarn 'Y Bunch of Grapes' am 6.30. Glyn Hughes, Pontypridd fydd yn ein tywys. Bwyd yn Alfred's yn hwyrach.

Cawn gwrdd ym Medi i wrando ar Peter Lewis, Ficer Sant Catherine yn siarad o brofiad am fugeilio'r strydoedd.

Croeso i aelodau newydd a chroeso nol i bawb arall i festri Capel Sardis nos Iau, Medi 10fed am 7.30p.m.

**Prynhawn Da**
Gwelwyd nifer o drigolion y dref yn son am apel Caffi'r Princes mewn eitem gyda Yvonne, y Tywydd ar Prynhawn Da yn ddiweddar. Mae'r cacennau blasus yn denu'r cwsmeriaid i gaffi enwoca' Pontypridd ! (Lluniau tudalen 1)

**Genedigaethau**
Ar 22ain o Fai ganwyd Emrys i Lowri a Marc Real, Pontypridd. Brawd bach i Lleucu ac ŵyr newydd i Graham a Delyth Davies, Cilfynydd. (Llun tudalen 4)

Llongyfarchiadau i Eurgain Haf a Ioan Thomas, Y Comin. Fe gyrhaeddodd Lois Rhodd yn gynnar ond yn berffaith. Mae Cian wrth ei fodd â'i chwaer fach newydd.

**Croeso**
Pob dymuniad da i Angharad Anwyl yn ei chartref newydd yn Hillside View, Graigwen. Mae Twm wrth ei fodd bod Nain wedi dod i fyw gyferbyn ag e.

**Clwb Llyfrau**
Yn wahanol i'n cyfarfodydd arferol yng Nghlwb y Bont byddwn yn cwrdd am ginio (ac i drafod llyfrau!) ddydd Mercher, Gorffennaf 8fed am 12.30. Lleoliad i'w gadarnhau.

Ym mis Medi byddwn yn cwrdd ar y 15fed yng Nghlwb y Bont am 8.00 i drafod ein dewisiadau ar gyfer tymor yr hydref.

**Cyhoeddusrwydd**
Mae'n siwr i chi ddarllen adolygiad o lyfr newydd Gwyn Griffiths, Maesycoed yn rhifyn mis Mai 'Tafod Elái'.Yn ystod y mis diwethaf mae Gwyn wedi ymddangos ar sofa 'Heno' ac wedi bod yn sgwrsio a Dei Tomos ar Radio Cymru - tipyn o gyhoeddusrwydd i'r gyfrol 'Ar Drywydd Stori'.

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

**Apêl Nepal**
Diolch yn fawr i'r Cyngor Ysgol a'r llysgenhadon am drefnu casglu arian ar gyfer apêl Nepal yn dilyn y ddau ddaeargryn a drawodd y wlad yn ddiweddar. Treuliwyd diwrnod yn gwneud gwahanol weithgareddau i ddod i ddysgu mwy am Nepal a'i phobl. Casglwyd £358 tuag at yr apêl.

**Y Llysgenhadon ym Mharc Margam**
Cafodd ein Llysgenhadon gyfle i gwrdd â Sally Holland sef Comisiynydd newydd Plant Cymru yn ystod diwrnod dathlu y Llysgenhadon ym Mharc Margam. Braf oedd cael cyfle i drafod â Llysgenhadon eraill yn ogystal â chymeryd rhan mewn nifer o weithgareddau hwyliog.

**Gwefan Newydd yr Ysgol**
Mae'r arweinwyr digidol wedi bod yn hynod o brysur yn paratoi ar gyfer lawnsio gwefan newydd yr ysgol. Cynhaliwyd cystadleuaeth i ddylunio masgot ar gyfer y wefan. Llongyfarchiadau i Siân Williams ac Ellie Gibbs ar ennill y gystadleuaeth. Ewch i www.ygg-tonyrefail.cymru i ddod i wybod mwy am yr ysgol

**Arweinwyr Digidol**
Mae'r chwe arweinydd digidol o Flwyddyn 5 wedi bod yn derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio gwahanol apps ar yr ipads. Maent hwythau yn eu tro wedi bod yn hyffordi eu cyd -ddisgyblion ar sut i ddefnyddio'r ipads mewn ffyrdd creadigol.

**Blas ar Iaith**
Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn cael Blas ar Iaith ar eu hymweliad ag Ysgol Llanhari yn ddiweddar. Daethant yn ôl i'r ysgol yn frwdfrydig iawn ac yn ymarfer eu sgiliau ieithyddol newydd.

**Blasu Tenis**
Cafodd digyblion Blwyddyn 1 y cyfle i gael blas ar chwarae tenis yn ystod sesiwn hyfforddi gan Glwb Tennis Llantrisant. Cafodd y plant amser hwyliog yn dysgu sut i chwarae tenis.

**Wythnos Cadw'n Iach**
Cafwyd wythnos brysur iawn yn yr ysgol i ddathlu pwysigrwydd cadw'n iach. Cafodd holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen gyfle i ddysgu sgiliau rygbi gyda P.C.Davies ac fe gafodd yr adran iau gyfle i brofi Boxercise gyda PCSO A. Blackburn. Daeth rhieni i gynnal gweithgareddau adeiladu tîm a Zwmba gyda Blwyddyn 4

# Priodas Ddiemwnt!



Llongyfarchiadau gwresog i Henry ac Eira Jones, Pentyrch, wrth iddynt ddathlu eu Priodas Ddiemwnt ddechrau mis Mehefin eleni! Priodwyd y ddau - Henry C. Jones a Miss Eira Bassett - yn Eglwys Sant Catwg, Pentyrch ddydd Sadwrn, Mehefin y 4ydd. 1955 - a hynny ddim ond wedi i Henry gwblhau ei 'rownd' foreol! Bendithiwyd eu priodas ar achlysur eu Priodas Aur ac eto eleni ar achlysur dathlu'r trigain! Braf oedd gweld Eira yn ddigon da i fwynhau'r diwrnod gan nad ydyw wedi mwynhau yr iechyd gorau ers nifer o flynyddoedd - ond roedd ei hysbryd yn uchel a gwerthfawrogiad y ddau o'r llu cardiau, anrhegion a blodau yn amlwg. Ymysg y llu cardiau roedd un go arbennig oddi wrth y Frenhines! O! Oedd - bum yn dyst! Chwarae teg i Vaughan am sicrhau diwrnod i'w gofio i'w rieni! Ymlaen nawr at y garreg filltir nesa! Dymuniadau gorau eich dau! A diolch am flynyddoedd lawer o wasanaeth i ni fwytawyr cig yr ardal!

**William Jones – Mordaith y Mimosa**
Daeth cwmi drama 'Mewn Cymeriad' i berfformio eu sioe 'William Jones – Mordaith y Mimosa' i ddisgyblion yr adran iau fel rhan o'u gwaith thema ar Batagonia. Roedd pawb wedi mwynhau y sioe yn fawr iawn ac wedi dysgu llawer am fywyd y Cymry cynnar ym Mhatagonia.

**Sboncen**
Daeth aelodau o Gymdeithas Squash & Raquetball Cymru i gyflwyno sgiliau sboncen i ddisgyblion yr adran iau. Roedd y sialens o ddysgu chwarau gêm newydd wedi bod yn sialens bleserus i'r disgyblion.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yng nghyfarfod olaf ein blwyddyn 2014-2015 ar y 18fed o Fai, cawsom y fraint o groesawu'r Athro Eleri Pryse o Adran Ffiseg, Prifysgol Aberystwyth. Gweithred gyntaf ein Cadeirydd oedd mynegi llongyfarchion yr aelodau i'n gwestai ar yr anrhydedd o ennill Cadair Bersonol yn Hydref 2014. Dyfarnwyd hyn ar sail disgleirdeb ei hymchwil, safon ei gofal dros fyfyrwyr ymchwil a safon uchel ei darlithoedd i israddedigion, y cyfan dros oddeutu chwarter canrif o wasanaeth yn y brifysgol.

Ganed Eleri yn Nolgellau. Derbyniodd ei haddysg gynradd mewn ysgolion yn Nolgellau, Bangor ac Aberystwyth, cyn symud i Ysgol Penweddig am ei haddysg uwchradd. Graddiodd mewn ffiseg yn Aber ac yno y bu ers hynny, gan ymuno â staff yr adran a graddol ddringo drwy haenau'r adran i'w safle bresennol.

Maes ei harbenigedd yw nodweddion yr ïonosffer, sef, yr atmosffer trydanol, a'u dylanwad ar donnau radio y Ddaear. Mae'r ïonosffer yn dechrau ar uchder o tua 60 cilomedr; ar uchder o tua 300 cilomedr mae ar ei dwysaf.

Ers blynyddoedd cynnar ei gyrfa ymchwil bu Eleri yn canolbwyntio ar dechnegau o geisio nabod strwythur yr ïonosffer. Yn enwedig bu'n ddylanwadol iawn ar ddatblygu techneg arbrofol newydd, o'r enw tomograffi, i roi prawf ar syniadau damcaniaethol oedd yn deillio o efelychiadau (simulations) cyfrifiadurol o strwythur yr ïonosffer.

Yn y cyfarfod cawsom gipolwg cyfoethog ar y rhyfeddodau sy uwch ein pennau yn bell i ffwrdd, ond sy'n effeithio'n arw ar hwyluso'r moddion cyfathrebu ar y Ddaear, moddion y byddwn yn eu cymryd yn ganiataol erbyn hyn.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar y drydedd nos Lun o Fedi yn ein man cyfarfod arferol ym Mhrif Adeilad y Brifysgol i gychwyn am 19.30. Croeso, croeso nôl, beth am fentro am y tro cyntaf?

**Archifau Morgannwg a Pharc yr Arfau**
Treuliodd Blwyddyn 5 ddiwrnod hynod o bleserus yng Nghaerdydd yn Archifau Morgannwg ple cawsant y cyfle i edrych ar archifau y chwaraewr rygbi - Bleddyn Williams ac i ddysgu mwy am hanes ei fywyd. Ym Mharc yr Arfau cafodd y disgyblion gyfle i edrych ar yr ystafell wobrwyon ac i gael sesiwn rygbi gyda'r Gleision. Diolch yn fawr i bawb yn Archifau Morgannwg a Pharc yr Arfau am drefnu'r diwrnod.

# CREIGIAU

*Gohebydd Lleol:*
*Nia Williams*

**Swydd gyntaf!**
Llongyfarchiadau mawr i Astrid Morgan ar sicrhau ei swydd dysgu gyntaf! Wedi graddio o Brifysgol Caerdydd a dilyn cwrs TAR uwchradd llwyddiannus mewn Ffrangeg a Sbaeneg bydd Astrid yn cychwyn fel athrawes ieithoedd modern yn Ysgol Uwchradd Casgwent ym mis Medi. Pob dymuniad da i ti, Astrid!

**Babi bach newydd!**
Llongyfarchiadau mawr i Elin a George ar enedigaeth Anni ar fehefin yr ail! Pawb yn iawn - Anni yn ciwt - a Mam-gu a Taid ac Wncwl Moc wrth eu bodd! Diolch i bawb am eu caredigrwydd a'u haelioni! Mae'r teulu bach yn byw yn Clos Cadwal, Llanilltud Faerdre. (Llun tudalen 4)

# Merched y Wawr - Cangen y Garth

(lluniau tudalen 4)

Nos Fercher, Mehefin y 10fed daeth criw bach dethol ynghŷd yng Nghrochendy Nantgarw ac fe'n croesawyd gan Gwen Griffiths a Jude! Cyfeillion Nantgarw.

Gyda'i hafiaith arferol adroddodd Gwen hanes cynhyrchu llestri gorau'r byd ar un cyfnod yma yn Nantgarw. Byr ydoedd y cyfnod ond mae'r cynnyrch yn hynod hardd, yn hynod werthfawr ac yn drysor prin. Daethom i adnabod Mr William Billingsley a'i deulu ac hefyd Thomas Pardoe - dau o baentwyr tseina gorau Ewrop yn y cyfnod.

A pha bryd oedd y cyfnod cynhyrchu yma yn Nantgarw? Wel cwta 'chydig flynyddoedd - 1813 - 1814 ac 1817 - 1820. Mae'n stori arwrol, mae'n stori ramantus ac mae'n stori bwysig! Diolch i Gwen a diolch i Jude am ein haddysgu.

Oddi yno aed am swper hynod flasus yn y Caesars! Byth yn methu! Gyda'r gwmniaeth a'r bwyd o safon uchel iawn - cafwyd clo haeddiannol i'n tymor ynghŷd ag enwau i lenwi rhai o'r swyddi gweigion! Diolch ferched! Cânt eu haeddiant/eu datgelu mis nesa pan fydd gennym ryw fath o Raglen ar gyfer y flwyddyn sy' i ddod. Os oes gennych syniadau/awgrymiadau - rhannwch nhw plîs!

# Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

(Lluniau tudalen 13)

**Cantre'r Gwaelod**
Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn cydweithio â Phrifysgol De Cymru'n ddiweddar. Fe dreuliodd y plant ddau ddiwrnod yn y brifysgol yn paratoi fersiwn modern o'r chwedl Cantre'r Gwaelod, cyn ei pherfformio o flaen yr Adran Iau. Roedd y disgyblion yn amlwg wedi cael llawer o hwyl wrth baratoi a pherfformio'r sgript.

**Sboncen**
Ar y deuddegfed o Fehefin fe ddaeth aelodau o staff chwaraeon Rhondda Cynon Taf atom er mwyn cynnal sesiynau blas ar sboncen gyda disgyblion Blynyddoedd 3 i 6.

**Criced**
Ar y degfed o Fehefin fe aeth tîm criced Blwyddyn 4 i gystadlu ar Gaeau Newbridge. Fe chwaraeon nhw saith gêm ac ennill yr ail wobr. Roedd yr holl ddisgyblion wrth eu boddau gyda'u medalau. Fe aeth dau dîm o Flwyddyn 5 a 6 hefyd i gystadlu mewn cystadleuaeth Criced Cyflym ar gaeau Clwb Criced Meisgyn. Chwaraeodd y plant yn wŷch, gan ennill dwy gêm a cholli dwy gêm arall.
Llongyfarchiadau yn ogystal i Dafydd Powell a Gruffudd Morgan a fu'n fuddugol mewn cystadleuaeth criced yn Ysgol Millfield yn ddiweddar.

**Ennill cystadleuaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Lana Everitt ar ennill cystadleuaeth yn y cylchgrawn "Cip" yn ddiweddar. Roedd yn rhaid iddi ddylunio clawr newydd ar gyfer un o nofelau T Llew Jones. Fe ddewisodd Lana "Tân ar y Comin" a'i gwobr oedd basged yn llawn llyfrau Cymraeg – gwerth £120 i gyd.

**Blwyddyn 6**
Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi bod ar sawl ymweliad ag Ysgol Gyfun Llanhari yn ystod yr wythnosau diwethaf. Fe gawson nhw lawer o hwyl yn ystod y diwrnodau "Blas ar Iaith" a drama a byddant yn mynd eto'n fuan i fwynhau diwrnod o weithgareddau gwyddoniaeth fforensig.

**Ymweliad Blynyddoedd 3 a 4**
Thema Blynyddoedd 3 a 4 y tymor hwn yw "Ein Bro". Mae Dosbarthiadau 7, 8, 9 a 10 wedi bod yn dysgu am hanes castell Llantrisant ac am hanes y teulu De Clare. Ar Fehefin yr ail, fe aeth Blwyddyn 3 ar ymweliad â Chastell Caerdydd er mwyn dysgu mwy am hanes y teulu, arfwisgoedd milwyr ar hyd yr oesoedd ac i ddysgu mwy am fywyd yn y castell. Dysgodd y disgyblion lawer o ffeithiau newydd ac fe gafodd pawb ddiwrnod ardderchog. Yn dilyn ymweliad Blwyddyn 3, fe aeth disgyblion Blwyddyn 4 i'r castell ar Fehefin y pedwerydd. Dysgodd Blwyddyn 4 am hanes y castell, am y teulu De Clare, teulu'r Stuart ac wrth gwrs teulu'r Bute. Cafodd y disgyblion lawer o hwyl wrth gymryd rhan mewn gweithdy ar chwedlau Cymru. Diolch i Elizabeth Stevens a staff y castell am eu croeso cynnes.

# TONTEG

*Gohebydd Lleol:*
*Gillian Williams*

**Llongyfarchiadau**
Babi newydd: Llongyfarchiadau i Iwan a Glesni (Roberts) gynt o'r Dell, Tonteg, ar enedigaeth eu merch fach, Lleucu Gwen ar Fai yr 22ain, chwaer fach i Marged Aur. Dymuniadau gorau iddyn nhw i gyd.

**Priodasau**
Llongyfarchiadau mawr i Eryl Norris a Richard ar eu priodas diweddar. Mae'r ddau yn byw ac yn gweithio yn Llundain, ond magwyd Eryl yn "Wellfield", Church Road Tonteg, lle mae ei rhieni Barbara a John yn dal i fyw.

Bu Laura Unett a James Perks yn dathlu eu priodas hwythau yng Nghastell Craig y Nos ar Fai y trydydd. (Llun tudalen 4). Mae'r ddau yn gweithio yng Nghaerdydd ac yn byw yn Neyland Close, Tonteg, gyferbyn â Glenys a Gordon, mam a thad Laura.

Dymuniadau gorau i'r ddau gwpwl am ddyfodol hir a hapus.

**Colli cymdogion**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Audrey, Gary a Paul Davies y Coppice ar golli John gŵr a thad annwyl ar Fai y nawfed ar hugain. Bu John yn athro yn Ysgol Rhydfelen ac ar ôl ymddeol i'w weld yn aml iawn yn cerdded gydag Audrey.

Trist iawn oedd clywed y newyddion am golli Lynwen Pretty ar Fehefin yr ail ar bymtheg ar ôl salwch gweddol fyr. Cymdeimlwn yn fawr iawn gyda Dafydd ei gŵr, y merched Eurliw a Cerian a'u teuluoedd. Bydd bwlch mawr ar ei hôl.

# LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebwyr y mis: Dilwen Davies
a Nia Donnelly

**Cap i Gymru**
Llongyfarchiadau mawr i Alun Lawrence o Feisgyn ar ennill ei gap rygbi cyntaf i Gymru. Cafodd Alun ei ddewis i chwarae fel wythwr i dîm dan 16 Gleision y Gogledd, a bu'n chwarae yn erbyn timau Y Gweilch, Scarlets a'r Dreigiau. O'r timau yma dewisiwyd 55 o fechgyn i chwarae mewn dau dîm i gynrychioli Cymru (Celts a Druids). Dros ail wythnos gwyliau'r Pasg aethant i Goleg Wellington ger Sandhurst i chwarae mewn twrnament yn erbyn timau o Ffrainc, Yr Eidal, Yr Alban ac ardaloedd Lloegr. Roedd yn wythnos grêt. O'r 55 yma dewisiwyd 23 o fechgyn i chwarae yn y gêm 'cap' yn erbyn Lloegr ym mis Ebrill. Yn anffodus colli bu hanes y tîm, er iddynt chwarae yn arbennig o dda. Dewiswyd Alun fel 'Dyn y Gêm' o dîm Cymru. Ers hynny mae Alun wedi bod yn hyfforddi gyda thîm dan 18 Y Gleision. Pob hwyl i ti Alun yn y dyfodol.



**Gwellhad Buan**
Dymunwn wellhad buan i Nia Lockett, Meisgyn yn dilyn llawdriniaeth ar ei choes. Fy fydd Gary, ei gŵr a'i phlant o gymorth mawr iddi. Edrychwn ymlaen at ei gweld yn rhedeg ar y strydoedd eto.

**Pen-blwydd**
Llongyfarchiadau i Olwen Jones, Croesoswallt, mam Margaret Calvert, ar gyrraedd 100 oed diwedd mis Mai. Mae'n hoffi mynd i'r Tabernacl, Efail Isaf, pan mae yn yr ardal.

**Ymladd dros Gymru**
Pob lwc Rhiannon Williams o Lantrisant, sy'n Brif Ferch yn Ysgol Llanhari yn ei chystadleuaeth Taekwando yn Yr Eidal. Fe fydd Rhiannon yn teithio i Roana, ger Venice fis yma, i gynrychioli tim TAGB Cymru ym mhencampwriaeth y 'World Taekwando Alliance'. Hi fydd yn ymladd fel y Pwysau Ysgafn o Gymru, ar ddiwrnod cystadleuthau 'blackbelt' oedolion (18 a hyn). Buona fortuna Rhiannon!

Gohebydd mis nesaf - Geraint ag Enid Hughes (enidageraint@btinternet.com)

## 'PROFIAD MOCHYN'



Mewn mart â'i sŵn a'r bwrlwm
Rhoed cynnig amdanaf am bunt;
Fe'm rhoddwyd mewn fan yn llawdrwm
A'm cludo drwy'r wlad fel y gwynt.

Cyrraedd fferm, cael croeso di-fai,
A'm tywys yn dirion i'm cwt;
Gwellt ar lawr ac wedi'i lanhau,
Yn hollol gyfforddus a thwt.

Er gadael teulu a'm siomi,
Gwerthfawrogais fy newydd wedd;
Nid mochyn yn awr ond, 'Tomi',
Mewn cartref llawn cariad a hedd.



Dyna sut bu hi am fisoedd
A thyfais yn fochyn go fawr;
Llewyrchais fel bonedd llysoedd,
Yn fy nhwlc yn fonheddwr mawr.

Un bore ar doriad y wawr,
Daeth dynion a chyllell a rhaff;
Dyma fy nhyngedfennol awr,
Casineb na welwyd ei fath.




Am ennyd fe gofiais y dydd
Mewn mart a'i sŵn a'r bwrlwm,
A minnau a'm teulu yn rhydd -
Yn awr, fy nhranc ar y fforwm.

Fy meithrin mewn caredigrwydd;
Gwrthgyferbyniad sy'n syndod –
Fy niwedd mewn erchyllrwydd
Wedi'r holl gariad a'r maldod.

D.H.H.R

## 'NO WÊ' gan Barry 'Archie' Jones




Comisiynwyd Barry 'Archie' Jones, sydd wedi ennill gwobrau am ***Dim Byd***, ***Cnex*** i S4C, i ysgrifennu sioe glybiau newydd i Bara Caws. Bydd **'No Wê'** yn teithio Cymru gyfan cyn diweddu yn Eisteddfod Sir Drefaldwyn mis Awst eleni.

*Mae 'na feirws wedi ei greu, mor bwerus gallai ddileu'r We Fyd Eang gydag un glic! Mae Judi Stench, pennaeth Mi69 yn galw ar James Bondage am help, a gyda chymorth ei ysgrifenyddes, Miss Moneyshot, asiant Double D o Wasanaethau Cudd Gwlad Thai a'r brodyr Brigyn, 60 munud yn unig sydd ganddo i ddarganfod pwy yw'r dihyryn, ac achub y We.*

Mi fyddwn yn teithio '**NO WÊ'** o nos Fawrth 30 o Fehefin hyd at Nos Sadwrn 1af o Awst o amgylch Cymru, gan ddiweddu yn Neuadd Bentref Meifod, (wythnos Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau) o Nos Fawrth 4ydd o Awst hyd at Nos Wener 7fed o Awst. Drysau yn agor am 7.00 yn Neuadd Bentref Meifod. Tocynnau i'w cael yn **Caffi'r Theatrau yn y Pentref Drama ar faes yr Eisteddfod** wythnos yr Ŵyl, neu drwy **ffonio 01286 675869/07880 031302.** Mi fyddan nhw ar werth wrth ddrws Neuadd Bentref Meifod yn ogystal – os na fydda nhw i gyd wedi eu gwerthu!

Actorion: Iwan Charles, Llyr Evans, Gwenno Elis Hodgkins; Maldwyn John a Catrin Mara. Cyfarwyddwr: Barry 'Archie' Jones

Addas i bawb dros 18 mlwydd oed yn unig.

Canolfan Chapter, Caerdydd. Nos Iau - Nos Sadwrn 23 — 25 Gorffennaf 02920 304400

# tafod elái

**GOLYGYDD**
**Penri Williams**
**029 20890040**

**HYSBYSEBION**
**David Knight 029 20891353**

**CYHOEDDUSRWYDD**
**Colin Williams**
**029 20890979**

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Medi
i gyrraedd erbyn
19 Gorffennaf 2015

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.net**

*Argraffwyr:*
**Gwasg Morgannwg**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**

***Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

## Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**



# TONYREFAIL

*Gohebydd Lleol:*
*Helen Prosser*
671577/prosserh@btinternet.com

**Ŵps**
Y mis diwethaf, dymunais i ben-blwydd hapus i Beryl Davies. Roedd hynny'n gywir ond ces i'r oedran yn anghywir – iawn! 89 oedd Beryl, nid 80. Ond rydym wedi cael llawer o hwyl am hyn a llun da yn barod ar gyfer y pen-blwydd mawr y flwyddyn nesaf. Mae'n amlwg bod yr 'oil of Ulay' yn gweithio'n dda iawn, Beryl!

**Cylch Rhagorol**
Llongyfarchiadau i Gylch Meithrin Thomastown ar ennill statws 'Cylch Rhagorol' gan y Mudiad Meithrin. Ystyr hyn yw bod y cylch "yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i blant bach a'u teuluoedd".

**Eisteddfod yr Urdd 2017**
**Pwyllgor Apêl ardal Llantrisant**

**Swper yn La Luna, Tonysguboriau**
nos Fercher Gorffennaf 15fed am 8y.h.
Pris y pryd yw £20, gyda'r elw yn mynd i gronfa'r eisteddfod.
Hwn yw digwyddiad cyntaf y pwyllgor. Croeso cynnes i bawb.
Am fanylion, neu i archebu tocyn, cysylltwch â Dafydd Roberts – 07766047009,
dafydd@glancreigiau.plus.com

**Cinio Codi Celc!**
**Apêl Cymdeithas Alzheimer**
Cinio 3 chwrs - Gwesty'r Parc Plaza, Caerdydd
Nos Wener, 18fed o Fedi am 7yh.
Cost £35 - angen £10 o flaendal - cysyllter â Rhiannon Henry ar 07974 533334 (rhihenry12@gmail.com) neu Linda Davies ar 02929 891239

**Bore Coffi i'r dysgwyr**
**yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore.**
**Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.**

## Yr Hen Lyfrgell - Eich barn chi



Mae Cyngor Caerdydd wedi penderfynu troi rhan o adeilad Yr Hen Lyfrgell ar yr Aes yn ganolfan Ddiwylliannol Gymraeg. Bydd addasiadau i'r adeilad, gyda chymorth grant y Llywodraeth, yn creu lle ar gyfer café bar, siop, ystafelloedd dysgu Cymraeg, ardal arddangos a pherfformio, cyfleusterau gofal plant ac ystafell gynadledda.

Yn ôl y Cyngorydd Phil Bale, Arweinydd y Cyngor, "Bydd y ganolfan yn hybu ac amddiffyn yr Iaith Gymraeg yn y ddinas a bydd trigolion yn falch iawn o'r ganolfan. Bydd yn adnodd gwerthfawr yn cynnig cyfle i bobl gymdeithasu a chlywed yr iaith Gymraeg."

Y nod yw creu canolfan groesawgar sy'n dathlu, hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg fel iaith fyw ar gyfer holl ddinasyddion Caerdydd a'i hymwelwyr. Bydd amrywiaeth o weithgareddau a darpariaeth i ddenu pobl o bob oed a chefndir drwy'r drysau yn Gymry Cymraeg, dysgwyr a theuluoedd di-Gymraeg. I sicrhau ein bod ni'n cynnig y ddarpariaeth gywir mae'n hollbwysig clywed barn pobl Caerdydd, a thu hwnt, am yr hyn hoffech chi ei weld yn y Ganolfan.

Mae Menter Caerdydd wedi creu holiadur i gasglu barn a gwybodaeth fydd yn helpu wrth gynllunio camau cyntaf y ganolfan. A fyddech mor garedig â chymryd dwy funud i'n cynorthwyo drwy glicio ar y linc isod a chwblhau'r holiadur.
https://www.surveymonkey.com/r/henlyfrgell

**acapela STUDIO** www.acapela.co.uk

11 Gorffennaf, 8.00yh: Bands Cymraeg (Tocynnau: £5/£7.50) Estrons, Tymbal, Y Ffug a Danielle Lewis
17 Gorffennaf, 8.00yh: Ragsy (Tocynnau: £5)
24 Gorffennaf, 8.00yh: Big Mac's Wholly Soul Band (Tocynnau £5/£7.50/£10)
18 Medi, 8.00yh: Jazz @ Acapela - Manana Collective
26 Medi, 8.00yh: Madassa Soul Band (Tocynnau: £10/£12.50/£15)




## Neges gan Gadeirydd Rhanbarth Morgannwg Ganol

Llongyfarchiadau Bawb ar eich llwyddiant yn Eisteddfod Caerffili a'r Cylch.

Eleni mae aelodaeth y rhanbarth ar eu huchaf (wedi codi yn y 3 blynedd diwethaf) a chynnydd o 25% eleni (6ed uchaf) mae yna 14 ysgol gynradd Gymraeg yn ein rhanbarth ond mae'r twf wedi dod gan yr ysgolion di-Gymraeg (sef ysgolion prin eu hiaith Gymraeg) 40% o'r aelodaeth yn ail iaith.

Eisteddfod Caerffili: Gorffennodd Morgannwg Ganol yn yr 8fed safle (allan o 17) Ymhyfrydwn a dathlwn eu llwyddiant! Mae hwn yn cynnwys yr holl waith cartef a'r cystadlaethau llwyfan!

Diolch i Jordan am ei waith diflino

Gadewch i ni weld os gallen ni wneud hyd yn oed yn well eto y flwyddyn nesaf wrth baratoi at 2017!!

Tegwen Ellis

### Cefnogi'r Eisteddfod





Mae sawl cyfle i fod yn rhan o baratoadau a dathliadau Eisteddfod yr Urdd 2017. Beth am ymuno â phwyllgor apêl i godi arian neu prynu, gwerthu neu wisgo crys T yr Eisteddfod fel ein Prif Weinidog, Carwyn Jones.

Mae llawer o wybodaeth i'w canfod ar ein tudalennau Facebook a chyfle i ennill nwyddau yn ein cystadlaethau. @eisturdd2017

Heb anghofio Twitter hefyd wrth gwrs.

Am rhagor o fanylion cysylltwch â Jordan Morgan Hughes – Jordan@urdd.org 02920 635685.

## CROESAIR COL



**Ar Draws**

1. Craf (6)
5. Estyllen (5)
9. Cystadleuaeth (9)
10. Cynaeafu ŷd (3)
11. Cloc (7)
13. Un anhapus iawn (5)
14. Ag un pwrpas (6)
16. Cŵn bach (6)
20. Gwaelod (5)
22. Cyfuno (7)
23. Nod (3)
24. Gwahanu (9)
27. Chwant bwyd (5)
28. Cyfrif (6)

**I Lawr**

2. Metal gwerthfawr (3)
3. Plas (3)
4. Didwyll (6)
5. Dodi plastr ar wal (7)
6. Aildyfu (5)
7. Mudredd (5)
8. Gwatwar (6)
12. Rhedegfa (3)
15. Ymgyffroi (7)
17. Cerrig mân (3)
18. Llamu (6)
19. Arwerthiant (6)
20. Coegni (5)
21. Heb liw (2-3)
25. Tyfiant (3)
26. Heb wres (3)

**Atebion i: Croesair Col 34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX erbyn 20 Gorffennaf 2015**

## Atebion Mehefin

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CH | W | A | L | ■ | ■ | D | I | O | G | E | L | U |
| W | ■ | C | ■ | A | ■ | A | ■ | N | ■ | U | ■ | N |
| I | S | E | L | D | I | R | ■ | N | E | R | C | O |
| L | ■ | R | ■ | A | ■ | ■ | ■ | E | ■ | DD | ■ | L |
| B | E | I | D | R | ■ | F | E | N | S | W | N | ■ |
| O | ■ | ■ | ■ | W | ■ | I | ■ | ■ | ■ | R | ■ | C |
| E | G | L | U | R | O | ■ | C | E | R | N | Y | W |
| TH | ■ | O | ■ | ■ | ■ | C | ■ | F | ■ | ■ | ■ | P |
| ■ | S | E | B | O | N | I | ■ | R | W | B | E | L |
| E | ■ | T | ■ | E | ■ | ■ | ■ | O | ■ | | ■ | E |
| P | A | R | E | D | ■ | I | S | E | L | I | A | D |
| I | ■ | A | ■ | F | ■ | A | ■ | G | ■ | | ■ | I |
| G | E | N | W | A | I | R | ■ | ■ | C | O | E | G |

## Cornel y Plant

### Cystadleuaeth y Chwilair

Dewch o hyd i'r geiriau hafaidd yma yn y Chwilair a defnyddiwch y llythrennau sy'n weddill i ddod o hyd i un o brifwyliau Cymru

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| c | e | n | u | h | dd | a | f | g | c |
| r | i | y | a | a | g | l | b | w | y |
| a | s | g | i | u | a | a | a | e | ch |
| n | u | e | l | l | r | p | r | r | o |
| c | f | r | y | t | dd | i | b | s | d |
| d | e | c | w | b | i | l | e | y | u |
| c | m | s | g | e | o | i | c | ll | c |
| r | t | r | a | e | th | p | i | a | r |
| a | c | i | n | c | i | p | w | o | a |
| p | h | u | f | e | n | i | a | d | b |

traeth
bwced
mefus
picnic
pili pala
cregyn
gwyliau
haul
cranc
hufen ia
barbeciw
gwersylla
barcud
cychod
parc
garddio

# Ysgol Gynradd Evan James

Lluniau Tudalen 13

**Llwyddiannau'r Eisteddfod**
Llongyfarchiadau i Kai Easter, o flwyddyn 5, am ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth Dawns Hip-hop/Stryd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerffili. Roedd ei berfformiad ar y llwyfan yn wych ac roedd pawb yn y pafiliwn wrth eu bodd yn ei wylio. Mae Kai yn dipyn o seren o gwmpas Pontypridd erbyn hyn!

Cafwyd perfformiad ardderchog gan griw'r Cyflwyniad Dramatig fore dydd Mawrth yn y rhagbrawf. Gadawodd y bws Bontypridd am 6 y bore a chafodd pawb hwyl ar faes yr Eisteddfod ac yn y ffair.

**Ymweliad Mr Phormula**
Un o uchafbwyntiau'r tymor oedd ymweliad Mr Phormula â'r ysgol. "Beat boxer" yw Mr Phormula sy'n enwog dros Gymru. Daeth yma am y dydd i gynnal gweithdai a chafwyd amser bendigedig yn ei gwmni yn dysgu sut i wneud synau hofrennydd, seiren yr heddlu a llawer mwy. Pwy a ŵyr, efallai y bydd un o'n disgyblion yn enwog yn y maes yn y dyfodol!

**Llangrannog**
Bu criw blwyddyn 5 yn Llangrannog am benwythnos gydag ysgolion clwstwr Garth Olwg yn mwynhau'r holl weithgareddau yno. Mwynheuodd pawb yn fawr. Gwelwyd plant brwnt iawn yn dilyn y cwrs antur fwdlyd! Yn anffodus cafodd Mr Carbis ddamwain yno a dymunwn wellhad buan iddo. Gobeithiwn ei weld yn ôl yn yr ysgol cyn hir.

**Brysia wella Mrs Lockett**
Hoffai staff a disgyblion yr ysgol ddymuno'n dda i Mrs Lockett yn dilyn llawdriniaeth ar ei phen-glin. Digon o orffwys ac fe fydd yn gwella a'n cryfhau.

**Gweithgareddau codi arian**
Bu'r mis yn un hynod o brysur wrth i ni godi arian ar gyfer sawl achos da.

Ras Hwyl Pontypridd – rhedodd sawl un o ddisgyblion a staff yr ysgol yn y ras hon er mwyn codi arian i Ysbyty Felindre. Roedd pawb yn edrych yn hynod o smart yn eu crysau rhedeg newydd ac fe redodd pawb yn gyflym fel y gwynt.

Wythnos feicio – roedd iard yr ysgol yn brysur dros ben wrth i bob disgybl ddod â beic neu sgwter i'r ysgol. Codwyd cannoedd o bunnoedd i apêl Nepal. Diolch blant!

Diwrnod Gwisgo'n Wyllt – roedd dros dri chant o blant wedi gwisgo fel anifeiliaid gwyllt am ddiwrnod i godi arian i warchod anifeiliaid prin y byd. Codwyd dros £200.

**Ymweliadau addysgol**
Ar ddiwrnod crasboeth o haf, aeth plant blwyddyn 1 a 2 i Sŵ Bryste er mwyn dysgu am gynefinoedd gwahanol anifeiliaid. Roeddent yn ffodus iawn i gael dal chwilod du a chrwbanod bach yn ystod y wers.

# Ysgol Pont-Sion-Norton

Lluniau Tudalen 13

**Llangrannog**
Cafwyd penwythnos llawn hwyl ym mis Mehefin, pan aeth blwyddyn 5 gyda gweddill y clwstwr i fwynhau gweithgareddau amrywiol Gwersyll yr Urdd Llangrannog. Roedd pawb wedi blino'n lan nol yn yr ysgol ddydd Llun! Diolch i'r holl staff a aeth gyda nhw.

**Roc a Phop**
Bu llawer o ddawnsio a LLAWER o swn yn dod o neuadd yr ysgol pan ddaeth criw o athrawon cerddoriaeth y Sir, gyda'u drymiau, allweddellau, gitar a meicroffon i ddiddannu'r plant. Roedd hyd yn oed yr athrawon yn dawnsio a chanu!

**Pêl-rwyd**
Diolch i Ysgol Garth Olwg am groesawu ein tim pel-rwyd i chwarae yn eu herbyn. Bu'r merched i gyd yn gweithio'n galed ar y cwrt ac edrych ymlaen at gael gêm arall cyn bo hir.

**Tripiau Haf**
Bl 5 a 6- Oakwood 26/6/15
Bl 3 a 4- Mountain View Ranch 2/7/15
CS- Fferm Sw Arch Noa 9/7/15

**BBQ Haf**
Bydd y BBQ Haf eleni ddydd Gwener y 3ydd o Orffennaf am 5pm, yn yr ysgol. Dewch i fwynhau'r stondinau amrywiol a'r byrgers blasus!

**Cyngerdd Haf**
Bydd cyngerdd Haf yr ysgol nos Fawrth, 7fed o Orffennaf, yn Ysgol Cardinal Newman. Dewch i glywed eitemau'r eisteddfod, y clwb perfformio ac ambell i eitem hwyl! Bydd y tocynnau ar werth cyn hir.

**Gwasanaethau**
Diolch i Mr Coleman a Mr James am ymweld a'r ysgol yn ddiweddar i gynnal gwasanaethau hwyliog a diddorol.

Bu Dosbarth Culhwch ac Olwen yn brysur yn edrych am greaduriaid yn y pwll dŵr yng Nghanolfan Ddŵr Cilfynydd yn ystod eu hymweliad yno.

**Ysgrifenwyr o fri**
Mae pedair awdures arbennig o flwyddyn 6 wedi ennill cystadleuaeth "Ysgrifenwyr Ifanc 2015". Fe fydd straeon byrion Holly Jones, Carys Murphy, Gwenllian Thomas a Catrin Mohammad-Smart yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol agos. Llongyfarchiadau ferched.

**Cuddfannau Campus**
Gwelwyd pob dosbarth yn creu campweithiau ar iard yr ysgol wrth iddynt gydweithio i greu cuddfannau. Pwrpas y gweithgaredd oedd codi ymwybyddiaeth o blant sy'n ddigartref fel rhan o ymgyrch Achub y Plant.

**Cydweithio â neiniau'r gymuned**
Cafodd holl blant blwyddyn 6 wahoddiad i ymuno â chlwb "Knitting Nanas" Pontypridd yn y llyfrgell i ddathlu wythnos wau ryngwladol. Efallai y cawn ddatblygu'r syniad yn glwb yn yr ysgol.

**Dysgu am Uganda**
Diolch o galon i Cath a Phil o'r elusen PONT am ddod i'r ysgol i rannu eu hanesion am Uganda gyda dosbarth Culhwch ac Olwen.

# Ysgol Dolau

Lluniau Tudalen 14

**Diwrnodau Trosglwyddo Blwyddyn 6**
Mae disgyblion blwyddyn chwech wedi bod yn mwynhau eu hail ddiwrnod trosglwyddo yn Ysgol Llanhari yn ddiweddar. Dyma'r bechgyn yn mwynhau cael brecwast Ffrengig ar y diwrnod 'Blas ar Iaith'. Mae'r dosbarth yn edrych ymlaen at ymweld ar gyfer diwrnod 'Celfyddydau Perfformio' ymhen wythnos.

**Gardd Synhwyrau**
Mae'r ardd synhwyrau'n datblygu'n gyflym erbyn hyn. Mae llu o weithwyr wedi bod wrthi yn creu ardal arbennig i swyno'r synhwyrau. Mae rhai o ddisgyblion Blwyddyn 6 wedi bod yn elwa o brofiad Mrs. Marsden (a thipyn bach oddi wrth Mrs. Rees a Miss Ryan!) wrth gynllunio, paratoi , plannu a gofalu am yr ardd. Ar hyn o bryd maen nhw wrth eu boddau yn creu abwydfa er mwyn cyfoethogi'r pridd yn yr ardd synhwyrau a gardd yr ysgol. Beth am ddod i weld a mwynhau bach o lonydd? Ewch i Twitter i weld rhai o'n lluniau.

**Pêl-rwyd a Phêl-droed**
Aeth y tîm pêl-rwyd i gystadlu mewn twrnament yn Ysgol Gwaunmeisgyn. Chwaraeon ni pedair gêm yn erbyn Gwaumeisgyn a Chastellau. Enillon ni yn erbyn Gwaunmeisgyn dwywaith ac ennill un a cholli un yn erbyn Castellau. Prynhawn rhagorol o bêl-rwyd! Yn ogystal â'r tîm pêl-rwyd, aeth y tîm pêl-droed i Ysgol Gwaunmeisgyn hefyd. Chwaraeodd y tîm yn dda iawn ond yn anffodus, dim ond ennill un o'u gemau. Enillon ni y gêm olaf gyda gôl gan un o fechgyn blwyddyn 5. Edrychwn ymlaen at y tymor nesaf!

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Charlotte Kwok am ennill yr unawd piano, dan 12, yn Eisteddfod yr Urdd, Caerffili. Dyma'r trydydd tro iddi gyrraedd y llwyfan a'r ail dro iddi ennill, a dim ond yn 9 oed! Enw i gadw mewn cof am y dyfodol!

**Sêr y byd Chwaraeon**
Llongyfarchiadau i Lewis Cogbill am ennill lle yn nhîm criced Cymru, dan 11 oed. Mae eisoes yn chwarae dros Forgannwg a nawr bydd yn chwarae dros ei wlad!! Llongyfarchiadau i Steffan Rawdin-Jones am gystadlu dros Gymru mewn saethyddiaeth ac ennill cystadleuaeth y tair gwlad!! Enwau byddwn yn clywed yn y dyfodol!!

# Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg





**Ymddeoliad**
Ar ddiwedd y tymor yma fe fydd Mrs Karen Evans a Mrs Sylvia Davies yn ymddeol. Diolchwn yn fawr iawn iddynt am eu cyfraniad hynod werthfawr i'r ysgol.

**Patagonia**
Diolch o galon i Elizabeth Fernandez am ddod i siarad â Blwyddyn 1 a 2 am ei phrofiadau ym Matagonia. Cafodd y plant gyfle i ofyn llawer o gwestiynau a darganfod mwy o wybodaeth am Batagonia.

**Criced**
Llongyfarchiadau enfawr i Callum Nicholls (Blwyddyn 6) sydd wedi cael ei ddewis i chwarae criced dros Gymru.

**Blwyddyn 5**
Llongyfarchiadau i blant Blwyddyn 5 am ennill tystysgrif 'Young Lifesaver's Award'.

**Eisteddfod**
Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Llongyfarchiadau gwresog i Elen Griffiths a ddaeth yn 3ydd yn yr unawd chwythbrennau.





Elizabeth Fernandez



**Siopa**
Mwynheuodd plant y Dosbarth Derbyn fynd am dro yn ddiweddar. Arsylwant ar y siopau o'u cwmpas a gwelsant lawer o bobl o'u cwmpas sy'n helpu.

**Cosmeston**
Mwynheuodd blant Blwyddyn 4 drip yn ddiweddar i Lynnoedd Cosmeston fel rhan o'u gwaith thema.





# Ysgol Evan James
(Tudalen 12)



Beat bocsio gyda Mr Phormula





Llangrannog

# Ysgol Pont Sion Norton
(Tudalen 12)



Roc a Phop



Pêl-rwyd

## Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant
(Tudalen 8)



Mwynhau dysgu sut i chwarae sboncen



Lana Everitt gyda'r llyfrau enillodd hi am ddylunio clawr newydd ar gyfer "Tân ar y Comin".



## Ysgol Dolau
(Tudalen 12)



Gardd Synhwyrau



Steffan Rawdin-Jones




Charlotte Kwok



Trosglwyddo Blwyddyn 6



Paratoi ar gyfer y sioe "Cantre'r Gwaelod"



Ymweliadau Blynyddoedd 3 a 4 â Chastell Caerdydd.

## Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail
(Tudalen 7)



Boxercise



Hyfforddiant Sboncen



Sioe Mordaith y Mimosa



Arweinwyr Digidol




www.ygg-tonyrefail.cymru

# Ysgol Llanhari

**Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili**
Pleser oedd tystio i holl ymdrechion y disgyblion yn yr Eisteddfod yn ystod Y Sulgwyn. Er na chafwyd llwyddiant ar y llwyfan, rydym yn hynod o falch o'r disgyblion a'u hymroddiad. Fe wnaethant fwynhau yn fawr a bwriadwn yn sicr adeiladu ar hyn yn y dyfodol.



Elan a Luke yn cystadlu yn unigol ac ar y ddeuawd



Côr yr ysgol

**Diwrnodau Trosglwyddo**
Rydym ar ganol cyfres o ddiwrnodau trosglwyddo ar hyn o bryd i ddisgyblion y tair ysgol sy'n bwydo Llanhari. Yn ystod Tymor yr Hydref cynhaliwyd diwrnod Celf a Thechnoleg ac yn ddiweddar cynhaliwyd diwrnod dan ofal yr Adran Ieithoedd Modern a diwrnod gyda'r adrannau Celfyddydau Perfformio. Mae'n gyfle gwych i'r disgyblion ymgyfarwyddo â'r ysgol, y staff a'r disgyblion o'r ysgolion eraill. Cyn hir byddwn yn croesawu blwyddyn 6 i ddiwrnod Mathemateg a Gwyddoniaeth a'r diwrnod olaf fydd y diwrnod chwaraeon ar y 7fed o Orffennaf.



Mwynhau gwaith masg

**Athletwyr Dawnus**
Yng ngystadleuaeth athletau y Sir a gynhaliwyd yn Aberhonddu yn ddiweddar fe fu llwyddiant i'r canlynol:
Lilly Gaskin 3ydd yn y 300m; Layla Davies 2il yn y Pwysau a'r Ddisgen; Eliza Hill yn 1af yn y 200m. Mae y dairy n cystadlu ymhellach wrth gynyrchioli yr ysgol a'u clybiau athletau. Bydd Eliza yn mynd ymlaen i gystadlu yn 'Gemau Cymru' ar Orffennaf y 4ydd yn Lecwith Caerdydd.
Llongyfarchiadau a phob lwc i chi gyd !

**Arbenigwr Microsoft**
Llongyfarchiadau calonog i Guto Pari o flwyddyn 10 ar ei lwyddiant yn yr arholiad Microsoft yn ddiweddar. Teithiodd Guto i bencadlys Microsoft yn Reading yng nghanol mis Mehefin i gystadlu yn erbyn disgyblion o ysgolion, colegau a phrifysgolion ledled y deyrnas Unedig a llwyddodd i ennill sgôr uchel iawn ym Mhencampwriaeth @MicrosoftUK.



Mwynahu ar y maes cyn rhagbrawf y Gân Actol



Y Grŵp gwerin ar y llwyfan

**Bore o hwyl yn nosbarth Dewi Draenog**
Cawsom fore hynod o lwyddiannus ar fore Mercher, yn croesawu'r disgyblion a'u rhieni a fydd yn dechrau yn yr ysgol ym mis Medi. Roedd pawb wrth eu bodd yn ymchwilio yn y dosbarth newydd ac yn cwrdd â staff y dosbarth. Buont yn creu draenogod bach i ofalu amdanynt ac yn canu hwiangerddi gyda Miss Rowlands. Edrychwn ymlaen at eich gweld ym mis Medi.



**Cyngerdd**
Croesawyd aelod o'r gwasanaeth gerdd i'r ysgol brynhawn Llun, Mehefin 18fed. Roedd y plant wrth eu boddau yn gwrando ar y caneuon. Cafodd hyd yn oed rhai o'r plant dro ar yr offerynnau. Buont yn dysgu enwau am yr offerynnau llinynnol a sut i gyfri curiadau mewn darn o gerddoriaeth. Bu un o'n disgyblion yn ffodus iawn cael arwain yr ensemble wrth iddynt ganu'r hwiangerddi.
Roedd rhaid iddynt ei dilyn wrth chwarae yn gyflym, yn araf, yn uchel ac yn isel. Swydd ar gyfer y dyfodol efallai? Gan fod pob un wedi gwrando'n astud, chwaraeodd yr ensemble 'Let it go' o'r ffilm Frozen a phawb yn cyd-ganu.





**Seremoniau Ffeil Cynnydd 2015**
Cynhaliwyd seremoni Ffeil Cynnydd blwyddyn 11 ar y 22ain o Fai, gyda nifer sylweddol o'r rhieni yn bresennol i ddathlu gyda ni. Cafwyd anerchiad gan Gary Black o RhCT, ac fe gyflwynwyd nifer o wobrau :
Gwobr Rotari am gyfraniad arbennig i'r ysgol ar hyd y blynyddoedd - Angharad Davies.
Gwobr goffa Malcolm Bennett am oroesi er gwaethaf rhwystrau ychwanegol - Rhiannon Griffiths.
Gwobr Cyflawniad Cadarnhaol (RhCT) - clod uchel iawn i Lewis Civil a Laura Keeble, ond Emily Ruck oedd ein henillydd eleni.
Llongyfarchiadau mawr i'r 5 ohonyn nhw, a dymuniadau gorau i bawb ym mlwyddyn 11 gyda'u harholiadau TGAU.



Emily Ruck



Rhiannon Griffiths



Laura a Lewis



Angharad Davies

Diwrnod Ieithoedd Modern









# Diweddglo hapus i dymor Pontypridd

**Diwrnod i'w gofio i gloi tymor Pontypridd.**

Daeth y tymor i ben i Glwb Rygbi Pontypridd gyda gêm dysteb i ddau o'i weision mwyaf ffyddlon - y chwaraewr Wayne O'Connor a chydlynydd y tim meddygol Dai Thomas. Chwaraewyd y gêm ddydd Sadwrn 30fed o Fai a daeth torf fawr i wylio ac i fwynhau yn yr haul.

Penllanw tymor tysteb i Wayne a Dai oedd y gêm, gyda nifer o weithgareddau eraill, megis diwrnod golff a sesiwn holi ac ateb gyda rhai o gymeriadau mawr y clwb, wedi eu cynnal dros y misoedd blaenorol.

Bu'r blaen-asgellwr Wayne O'Connor yn chwarae i Bontypridd ers 2002 ac yn ddiweddar gwnaeth ei 300fed ymddangosiad i'r tîm. Yn chwaraewr hollol ymroddedig sydd ar bob adeg wedi gosod ei gorff a'i enaid ar y lein dros Bontypridd, gellir ystyried O'Connor bellach fel un o arwyr mawr y clwb.

Cyfraniad sylweddol Dai Thomas i'r clwb dros yr ugain mlynedd diwethaf a mwy oedd casglu at ei gilydd staff meddygol o'r safon uchaf un i wasanaethu Pontypridd. Mae gan y clwb yn awr alw ar feddygon, deintyddion a physiotherapwyr, ac offer meddygol o'r radd flaenaf.

Roedd y gêm dysteb ar y 30fed o Fai yn deyrnged i Wayne a Dai ond hefyd yn ddathliad o werthoedd Glwb Rygbi Pontypridd. Daeth llu o chwaraewyr ynghyd i gymryd rhan yn y gêm, gan gynnwys y mwyafrif o garfan bresennol y clwb, aelodau o'r tim Ieuenctid llwyddiannus a chyn chwaraewyr o fri. Roedd arwyr Cymru megis yr wythwr Michael Owen, y prop Mike Griffiths, y cefnwr Kevin Morgan a'r canolwr Sonny Parker ymysg rhai o'r enwogion oedd i'w gweld, ac yn profi fod y doniau crai yn dal ganddynt wrth chwarae.

Eiliad i'w thrysori oedd diweddglo'r ornest pan ddaeth y cyn gefnwr John Pritchard oddi ar y fainc i sgorio cais a throsiad i ennill y gêm i'w dîm. Ei ŵyr Harvey Williams osododd y bêl i John anelu'r gic olaf at y pyst, a Harvey yntau yn fab i'r cyn brop Stuart



Chwaraewyr y gêm dysteb



Y gic olaf gan John Pritchard.

Williams a fu farw mor ddisymwth y llynedd. Roedd tair cenhedlaeth o Glwb Rygbi Pontypridd yn cael eu cynrychioli ar y maes, a hynny mae'n siwr yn cyfannu holl werthoedd a thraddodiad y clwb.

Cafwyd gwledd o rygbi wrth i dîm Dai Thomas guro tîm Wayne O'Connor o 87 pwynt i 82, gyda nifer o geisiau cofiadwy yn cael eu sgorio. Diwrnod i'w gofio, a theyrnged addas i ddau o gewri Clwb Rygbi Pontypridd.





